Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 20 Gorffennaf 2017

Amser: 09.16 - 12.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4196

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Mike Hedges AC (Cadeirydd) Jayne Bryant AC Siân Gwenllian AC Huw Irranca-Davies AC David Melding AC Jenny Rathbone AC Simon Thomas AC Lesley Griffiths AC
Tystion:	
Staff y Pwyllgor:	Marc Wyn Jones (Clerc) Louise Andrewartha (Dirprwy Glerc) Wendy Dodds (Ymchwilydd) Elfyn Henderson (Ymchwilydd)

Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 389KB) Gweld fel HTML (227KB)

1 Rhag-gyfarfod preifat

2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Gareth Bennett AC.

3 Craffu blynyddol ar Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion gwestiynau gan yr Aelodau.

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i adolygu adroddiad panel asesu y DU o'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur, a nodwyd gan Simon Thomas AC, ac ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'i hymateb ar ei gynnwys.

4 Papur i'w nodi

4.1 Llythyr gan y Llywydd ynghylch gweithredu Deddf Cymru 2017

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

4.2 Llythyr gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

6 Trafod ymateb i'r llythyr gan y Llywydd ynghylch gweithredu Deddf Cymru 2017

Cytunodd y Pwyllgor i ymateb i'r llythyr i roi gwybod i'r Llywydd y dylai dyddiad y prif ddiwrnod penodedig fod yn Ebrill 1, 2018, nid 6 Ebrill 2018 fel y nodir yn y llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, os yw'r diwrnod i gyd-fynd â'r model cadw pwerau yn dod i rym.

7 Ymchwiliad i bolisi coedwigaeth a choetiroedd yng Nghymru - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd i'w lansio ddydd Mercher 26 Gorffennaf yn Sioe Frenhinol Cymru.

8 Cyflwyniad ar oblygiadau Deddf y Diddymu o ran Blaenraglen waith y Pwyllgor

Gwarandawodd y Pwyllgor ar y cyflwyniad a thrafododd y materion a godwyd.

9 Trafod Blaenraglen Waith y Pwyllgor

Cytunodd y Pwyllgor ar ei Flaenraglen Waith ar gyfer tymor yr hydref a chytunodd i gynnal ymchwiliad byr i brosiectau ynni cymunedol.